PARRY, JOHN ('Y telynor dall'; 1710? - 1782)

Enw: John Parry
Ffugenw: Y Telynor Dall
Dyddiad geni: 1710?
Dyddiad marw: 1782
Plentyn: William Parry
Rhyw: Gwryw
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd ef ym Mryn Cynan yn agos i Nefyn, Sir Gaernarfon, c. 1710. Dywed 'Carnhuanawc' mai Robert Parry, Llanllyfni, a ddysgodd iddo'r gelfyddyd o ganu'r delyn, a dywed Edward Jones ('Bardd y Brenin') iddo gael gwersi gan Stephen Shon Jones o Benrhyndeudraeth. Daeth John Parry yn un o delynorion gorau Prydain a bu'n canu'r delyn ym mhrif gyngherddau'r deyrnas yn Llundain, Caergrawnt, Rhydychen, a Dulyn. Penodwyd ef yn delynor Syr Watkin Williams Wynn yn Wynnstay, Rhiwabon.

Cyfraniad mawr John Parry i Gymru oedd cyhoeddi tair cyfrol o alawon. Cyhoeddwyd y gyntaf dan yr enw *Antient British Music* yn 1742; cynorthwywyd ef gan Evan Williams, y telynor o Langybi, Arfon, i gasglu'r gyfrol hon. Yn 1761 dug allan *A Collection of Welsh, English, and Scotch Airs* , ac yn 1781 *British Harmony, being a collection of Antient Welsh Airs* . Gwasanaeth amhrisiadwy oedd cyhoeddi y casgliadau hyn o'r alawon, a dechreuwyd cyfnod newydd yng ngherddoriaeth Cymru drwyddynt.

Bu farw yn 1782 - fis Tachwedd yn ôl y *Gentleman's Magazine*, ond Hydref, medd Edward Jones yn y *Relicks of the Welsh Bards*. Credir iddo gael ei gladdu ym mynwent Rhiwabon.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

R. Griffith, *Llyfr Cerdd Dannau* (Caernarfon 1913)

Y Cerddor, Medi 1889

J. Lloyd Williams, *Y tri thelynor arloeswyr cerddorol Cymru yn y ddeunawfed ganrif* (1945)

Groves, *Groves' Dictionary of Music and Musicians* (1940)

Darllen Pellach

Ann Griffiths, 'John Parry, Parry Ddall', Rhaglen Gwyl Gregynog, 2010

Erthygl Wicipedia: John Parry (Y Telynor Dall)

Gweithiau

John Parry a Evan Williams, *Antient British music* (London 1742)

John Parry, *A collection of Welsh, English & Scotch airs with new variations also four lessons for the harp or harpsichord* (London 1761)

John Parry, *British harmony: being a collection of antient Welsh airs* (Ruabon 1781)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 62800193

Wikidata: Q6251987

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Griffith, R. D., (1953). PARRY, JOHN ('Y telynor dall'; 1710? - 1782). *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PARR-JOH-1710

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC NLW

LLYFRGEL
THE NATI

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government